Creu gorffeniadau o ansawdd sy’n atgynhyrchu graen pren

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chreu gorffeniadau sy'n atgynhyrchu graen naturiol pren meddal neu bren caled, diogelu'r man gweithio, paratoi grwnd, paratoi a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar cysylltiedig, dehongli gwybodaeth a mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol.

Mae'r safon hon ar gyfer pobl sy'n gweithio ym maes Galwedigaethau Gorffen Addurniadol a Phaentio Diwydiannol a gall gweithwyr, goruchwylwyr a rheolwyr ei defnyddio.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

P1 dehongli'r wybodaeth a roddwyd yn ymwneud â'r gwaith ac adnoddau i gadarnhau ei bod yn berthnasol

P2 cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol a chanllawiau swyddogol a roddwyd i wneud eich gwaith a chadw arferion gwaith diogel ac iach

P3 dethol faint o adnoddau ac ansawdd yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer y dulliau gwaith

P4 cydymffurfio gyda gweithdrefnau i leihau'r risg o ddifrod i'r gwaith a'r ardal o amgylch

P5 cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau contract a roddwyd i wneud y gwaith yn effeithlon i'r fanyleb ofynnol

P6 cwblhau'r gwaith o fewn yr amser a glustnodwyd, yn unol â'r rhaglen waith

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

**Meini Prawf Perfformiad 1

**

**Dehongli gwybodaeth**

K1 pa weithdrefnau a ddatblygwyd gan y sefydliad i adrodd am **wybodaeth** amhriodol ac **adnoddau** anaddas, yn ogystal â'u cywiro, a sut i'w gweithredu

K2 pa fathau o **wybodaeth** sydd ar gael, beth yw eu ffynhonnell a sut i'w dehongli

K3 beth yw gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer datrys **problemau** â'r **wybodaeth** a pham mae'n bwysig eu dilyn

**Meini Prawf Perfformiad 2

Arferion gwaith diogel**

K4 lefel y ddealltwriaeth y mae'n rhaid i weithredwyr ei chael o **wybodaeth** ar gyfer deddfwriaeth berthnasol, gyfredol **a chanllawiau swyddogol** a sut y caiff ei gweithredu

K5 y mathau o **ddiffoddwyr tân** a sut a phryd y cânt eu defnyddio

K6 sut **y dylid ymateb i argyfyngau** a phwy ddylai ymateb K7 y gweithdrefnau diogelwch **sefydliadol** ar gyfer offer, cyfarpar ac eiddo personol

K8 beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer adrodd am ddamweiniau a phwy sy'n gyfrifol am wneud yr adroddiad

K9 pam, pryd a sut **y dylid defnyddio cyfarpar**rheoli iechyd a diogelwch

K10 sut i gydymffurfio ag arferion gweithio sy'n amgylcheddol gyfrifol er mwyn diwallu deddfwriaeth gyfredol a **chanllawiau swyddogol

**Meini Prawf Perfformiad 3

**Dethol adnoddau****

K11 y nodweddion, ansawdd, defnyddiau, cynaliadwyedd, cyfyngiadau a diffygion sy'n gysylltiedig â'r **adnoddau** a sut y dylid cywiro diffygion

K12 sut y dylid defnyddio'r **adnoddau** a sut mae unrhyw **broblemau**

sy'n gysylltiedig â'r **adnoddau'n** cael eu riportio

K13 y gweithdrefnau sefydliadol i ddethol **adnoddau**, pam y cawsant eu datblygu a sut y cânt eu defnyddio

K14 y **peryglon** sy'n gysylltiedig â'r **adnoddau** a'r **dulliau gweithio**

a sut y cânt eu goresgyn

**Meini Prawf Perfformiad 4

**Lleihau'r risg o ddifrod****

K15 sut i **amddiffyn gwaith** rhag difrod a phwrpas amddiffyn K16 pam y dylid **gwaredu gwastraff** yn ddiogel a sut y caiff ei gyflawni

**Meini Prawf Perfformiad 5

Diwallu manyleb y contract**

K17 sut mae **dulliau gweithio**, i ddiwallu'r fanyleb, yn cael eu cyflawni a **sut y dylid** adrodd am broblemau

K18 sut mae gwaith **cynnal a chadw** offer a chyfarpar yn cael ei wneud

**Meini Prawf Perfformiad 6

**Amser wedi'i ddyrannu****

K19 beth yw'r **rhaglen** i'r gwaith gael ei wneud yn yr amser amcangyfrifedig, dyranedig a pham y dylid cadw at derfynau amser

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

**Maen Prawf Perfformiad 1**

*

***1 dehongli manylebion, rheoliadau cyfredol, asesiadau risg, datganiadau dull a gwybodaeth gwneuthurwyr yn cyfeirio at y gwaith i gael ei wneud***

*

**Maen Prawf Perfformiad 2**

2 osgoi risg drwy gydymffurfio â'r wybodaeth a roddwyd yn ymwneud â'r dilynol

2.1 dulliau gwaith

2.2 defnyddio cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch yn ddiogel

2.3 defnyddio offer mynediad yn ddiogel

2.4 defnyddio a storio deunyddiau, offer a chyfarpar yn ddiogel

2.5 risgiau penodol i iechyd

*

*Maen Prawf Perfformiad 3**

3 dethol adnoddau yn gysylltiedig â'ch gwaith eich hun

3.1 deunyddiau

3.2 offer a chyfarpar

*

*Maen Prawf Perfformiad 4**

4 diogelu'r gwaith a'r ardal o'i gwmpas rhag difrod

5 cynnal man gweithio clir a thaclus

6 gwaredu gwastraff yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol

**Meini Prawf Perfformiad 5**

7 dangos sgiliau cymysgu, blendio, arllwys, gwanedu, masgio, rhag-baentio, llusgo, meddalu, graenio drosodd, fflogio, cribo a rhwbio

8 defnyddio a chynnal a chadw offer llaw a chyfarpar cysylltiedig

9 paratoi grwnd o ansawdd uchel a chreu gorffeniadau sy'n atgynhyrchu graen y prennau dilynol ar waliau llydan a gwaith llinellog drwy wneud y gwaith fesul dau gam

gwahanol o leiaf a defnyddio sgymblau a gludir gan ddŵr a/neu sgymblau a gludir gan hydoddydd neu ddeunyddiau priodol eraill yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir

9.1 derw (unrhyw ddau o'r dilynol): llifiad rheiddiol, rhuddin a graen syth

9.2 mahogani (unrhyw ddau o'r dilynol): rhuddin, graen syth a phluen

10 defnyddio deunyddiau cotio sy'n diogelu ac sy'n briodol

**Meini Prawf Perfformiad 6**

11 cwblhau'ch gwaith eich hun o fewn yr amser amcangyfrifedig a neilltuwyd i ddiwallu anghenion galwedigaethau eraill a/neu'r cleient

*

*

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â  gwybodaeth a dealltwriaeth